Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.*
*We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.*

**Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr / Chief Executive's Directorate**
Deialu uniongyrchol / Direct line /: 01656 643148 / 643694 / 643513
Gofynnwch am / Ask for:  Gwasanaethau Democrataidd

Ein cyf / Our ref:
Eich cyf / Your ref:

**Dyddiad/Date:** Dydd Iau, 18 Mehefin 2026

Annwyl Cynghorydd,

**CYNGOR**

Cynhelir Cyfarfod  Cyngor Hybrid yn Siambr y Cyngor - Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB / o bell drwy Microsoft Teams ar **Dydd Mercher, 24 Mehefin 2026** am **16:00**.

**AGENDA**

1 Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.

2 Datganiadau o fuddiant

Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.

3 Cymeradwyaeth Cofnodion — 9 - 28

I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 11/03/2026 a 13/05/2026

4 I dderbyn cyhoeddiadau oddi wrth:

(i) Maer (neu'r person sy'n llywyddu)
(ii) Prif Weithredwr

5 Derbyn cyhoeddiadau gan yr Arweinydd

6 Ymateb Asesiad Perfformiad y Panel 29 - 52

7 Adolygiad o Drefniadau Cymunedol 53 - 62

8 Alldro Cyllideb Refeniw 2025-26 63 - 104

9 Diwygiadau i'r Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau a Rheolau Gweithdrefn Contractau 105 - 190

10 Adroddiad Gwybodaeth i'w Nodi 191 - 194

11 Derbyn y Cwestiynau canlynol gan:

**Y Cynghorydd I Williams i'r Arweinydd**

"Ym mis Medi 2025 gofynnais i'r arweinydd ddwyn achos llys yn erbyn DCWW, gan ddefnyddio'r pwerau sydd gan Awdurdodau Lleol, i atal ein hafonydd a'n traethau rhag cael eu llygru'n barhaus.

NA oedd yr ateb a gefais ganddo er gwaethaf y ffaith fod ein traethau'n cael eu difetha gan faw dynol, condomau a chynhyrchion misglwyf, sy'n cael eu golchi i fyny ar ein glannau, yn rhy reolaidd o lawer.

Mae 6 mis bellach ers i mi ofyn ddiwethaf a hoffwn gael gwybod beth mae CBSP wedi ei wneud yn y cyfamser i leihau rhagor o ddifrod rhag cael ei achosi gan lygredd DCWW i'n diwydiant twristiaeth, i iechyd a lles ein trigolion a'n hymwelwyr, ac i fioamrywiaeth werthfawr ein bwrdeistref?"

**Y Cynghorydd Alex Ulberini-Williams at yr aelod Cabinet Adfywio a Thai**

Pam nad yw Pencoed yn cael ei ystyried yn Dref gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr?

**Y Cynghorydd O Clatworthy at y Dirprwy Arweinydd/Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant**

Mae'n groesawgar gweld y cynnydd sy'n cael ei wneud ledled Cymru i ddileu gofal preswyl i blant sy'n gwneud elw yn raddol a symud tuag at fodel dielw, sy'n gam pwysig i sicrhau bod pobl ifanc agored i niwed yn derbyn cymorth sy'n canolbwyntio ar eu lles yn hytrach nag elw ariannol.

A all yr Aelod Cabinet amlinellu pa gefnogaeth y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ei darparu ar hyn o bryd i bobl ifanc sy'n trosglwyddo o gartrefi preswyl plant i lety â chymorth a byw'n annibynnol?

Ar ben hynny, wrth i Lywodraeth Cymru symud i ffwrdd o ddarpariaeth breswyl breifat i blant sy'n gwneud elw, a yw'r Cyngor wedi ystyried cyfleoedd i ehangu neu ddatblygu ei wasanaethau llety â chymorth ei hun a redir gan y cyngor ar gyfer pobl ifanc sydd wedi bod

mewn gofal neu sy'n ddigartref, yn hytrach na dibynnu ar ddarparwyr preifat allanol? Os felly, pa waith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i archwilio hyn, a pha heriau neu gyfleoedd sydd wedi'u nodi?

**Y Cynghorydd T Thomas i'r Arweinydd**

A wnaiff yr Arweinydd roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithrediad Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o'r Siarter ar gyfer Teuluoedd sydd wedi Profi oherwydd trasiedi gyhoeddus?

**Y Cynghorydd M Williams i'r Arweinydd**

A allai'r Arweinydd egluro beth a ysgogodd nifer o 'Siediau Cacennau' ar draws y fwrdeistref sirol i gael ymweliad gan swyddogion gorfodi BCBC y mis diwethaf a'u cyfarwyddo i roi'r gorau i fasnachu oni bai eu bod yn gwneud cais am 'drwyddedau masnachu stryd' neu'n wynebu dirwyon mawr.

12 Hysbysiad o Gynnig a gynigiwyd gan y:

**Cynghorydd JP Blundell**

Cynnig: Adolygiad o Fformiwla Gyllido Llywodraeth Leol

Mae'r Cyngor hwn yn nodi:

1. Ym maniffesto Plaid Cymru ar gyfer etholiad diweddaraf y Senedd, gwnaed ymrwymiadau i adolygu a diwygio fformiwla gyllido llywodraeth leol, gan gynnwys y datganiadau:

“A byddwn yn adolygu ac yn diwygio fformiwla gyllido llywodraeth leol fel y bydd yn adlewyrchu’n deg yr hyn yw realiti gwasanaethu poblogaethau sy’n wledig i raddau helaeth.”
ac
“Adolygu’r fformiwla gyllido ar gyfer llywodraeth leol fel ei bod yn adlewyrchu’n well gost wirioneddol darparu gwasanaethau mewn gwahanol rannau o Gymru.”

2. Y gallai unrhyw newidiadau i fformiwla gyllido llywodraeth leol gael goblygiadau sylweddol i awdurdodau lleol ledled Cymru, gan gynnwys Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
3. Pwysigrwydd sicrhau y bydd diwygio’r fformiwla gyllido yn unrhyw ffordd yn adlewyrchu tegwch a thryloywder, ac na fydd yn gosod cymunedau ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr dan anfantais.

Felly mae'r Cyngor hwn yn penderfynu

1. Ysgrifennu at Ysgrifennydd/Gweinidog y Cabinet dros Gyllid yn Llywodraeth Cymru ac Ysgrifennydd/Gweinidog y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio yn gofyn am eglurder buan ynglŷn â manylion yr ymrwymiadau a wnaed ynghylch diwygio fformiwla gyllido llywodraeth leol, eu cwmpas a'r bwriad i’w gweithredu.
2. Gofyn am sicrwydd na fydd unrhyw ddiwygiadau arfaethedig yn cael effaith ariannol andwyol ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr na'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.
3. Gofyn am ymgynghori’n llawn â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ynglŷn ag unrhyw newidiadau arfaethedig i’r fformiwla gyllido cyn iddynt gael eu gweithredu.

**Cynghorydd O Clatworthy**

Mae'r Cyngor hwn yn nodi:

- Ein bod ni ledled Prydain yn gweld diwylliant cynyddol o fygwth, o gam-drin gwleidyddol a gelyniaeth tuag at bobl sy'n dal safbwyntiau gwahanol.
- Ni all democratiaeth weithredu'n iawn os yw pobl gyffredin yn cael eu tewi gan waeddiadau, eu bygwth neu eu dychryn am fynegi barn gyfreithlon.
- Bod trais gwleidyddol, bygwth ac aflonyddu yn erbyn cynghorwyr, ymgeiswyr, ymgyrchwyr, newyddiadurwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn gwbl annerbyniol, waeth beth fo'u cysylltiadau gwleidyddol.
- Bod llawer o bobl weddus bellach yn cael eu digalonni rhag mynd i mewn i fywyd cyhoeddus oherwydd bod gwleidyddiaeth wedi mynd yn fwyfwy gwenwynig a gelyniaethus.
- Mae Prydain wedi ei i hadeiladu ar ryddid ymadrodd, dadl ddemocrataidd a'r hawl i anghytuno'n heddychlon.
- Mewn democratiaeth, mae dadl gref yn beth iach ond nid felly fygwth na thrais gwleidyddol.
- Ni ddylai neb wynebu bygythiadau, cam-drin nac ymdrechion i'w distewi yn syml oherwydd eu bod yn dal safbwyntiau gwleidyddol prif ffrwd.
- Mae'n ddyletswydd ar gynghorwyr i arwain drwy esiampl a chynnal dadl ddemocrataidd barchus, hyd yn oed pan fydd barn yn amrywio'n fawr, gan gynnwys dangos cwrteisi cyffredin tuag at ei gilydd.

Mae'r Cyngor hwn yn penderfynu:

1. Condemnio pob math o drais gwleidyddol, bygwth, aflonyddu ac ymdrechion i roi taw ar fynegiant democrataidd cyfreithlon.
2. Ailgadarnhau cefnogaeth y Cyngor hwn i ryddid ymadrodd, dadl agored a chyfranogi democrataidd.
3. Annog yr holl aelodau etholedig i hyrwyddo ymddygiad parchus ar-lein ac mewn cyfarfodydd cyhoeddus hefyd.
4. Gweithio gyda Heddlu De Cymru lle bo angen i sicrhau bod achosion o fygwth neu ddychryn cynghorwyr, swyddogion neu aelodau o'r cyhoedd yn cael eu trin o ddifrif.
5. Hyrwyddo diwylliant lle mae trigolion yn teimlo'n hyderus i fynegi eu barn yn agored heb ofni cael eu cam-drin na'u bygwth.
6. Gofyn i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn mynegi pryder ynghylch gelyniaeth gynyddol mewn bywyd cyhoeddus ac yn galw am gamau cryfach i amddiffyn cyfranogi democrataidd a rhyddid ymadrodd.

**Cynghorydd R Penhale-Thomas**

Ysbyty Cymunedol Maesteg

Mae'r Cyngor yn nodi'r canlynol:

- Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morganwg wedi nodi buddsoddiad o fwy na £30 miliwn i wella'r ddarpariaeth gofal iechyd ym Maesteg ac yng Nghwm Llynfi yn ehangach, ac mae'r Cyngor yn croesawu hyn mewn egwyddor.

- Roedd yr ymgysylltu cynnar ynghylch y buddsoddiad hwn yn adeiladol ac fe greodd obaith gwirioneddol yn lleol, ar sail y disgwyliad y byddai Ysbyty

Cymunedol Maesteg yn cael ei ailddatblygu gyda gwelyau ysbyty nyrsio cymunedol i gleifion mewnol.

- Ers hynny, mae’r cynigion wedi newid yn sylfaenol, gyda'r Bwrdd Iechyd bellach yn symud i ffwrdd oddi wrth ailddatblygu'r ysbyty presennol o blaid safle newydd, heb ail ymgysylltu’n ystyrlon â’r trigolion.

- Yn awr, nid oes safbwynt clir na phendant ynghylch dyfodol gwelyau cleifion mewnol cymunedol, yn gwasanaethu Maesteg a Dyffryn Llynfi.

- Mae gwelyau camu i fyny a chamu i lawr cymunedol yn chwarae rhan hanfodol mewn cefnogi ysbytai acíwt drwy atal derbyniadau y mae modd eu hosgoi, ei gwneud yn bosibl rhyddhau cleifion yn gynt, a darparu gofal yn nes at adref. Oherwydd hynny, mae i’r ansicrwydd ynghylch darpariaeth o'r fath oblygiadau ehangach o ran pwysau ar draws y system iechyd.

- Mae Llais, y corff statudol annibynnol sy’n eiriol dros gleifion, wedi cyhoeddi adborth hynod feirniadol ynglŷn ag ymgysylltiad y Bwrdd Iechyd ynghylch Ysbyty Cymunedol Maesteg, gan nodi diffygion difrifol ac adlewyrchu rhwystredigaeth a diffyg ymddiriedaeth ymhlith llawer yn lleol.

- Gyda'i gilydd, mae hyn wedi arwain at erydu ‘r hyder yn y Bwrdd Iechyd yn barhaus i raddau helaeth, gydag ymddiriedaeth yn cael ei thanseilio gan y ffordd y mae cynigion wedi cael eu datblygu, eu newid a'u cyfleu i eraill.

Mae’r Cyngor gan hynny yn penderfynu:

1. Croesawu'r ymrwymiad i fuddsoddiad sylweddol mewn gofal iechyd yng Nghwm Llynfi, tra’n mynegi ei siom a'i bryder ynghylch:

    - Y penderfyniad i symud i ffwrdd oddi wrth ailddatblygu Ysbyty Cymunedol Maesteg; a
    - Y ffordd y mae'r newid cyfeiriad hwn wedi cael ei drin a heb gael ei gyfleu i eraill.

2. Gwneud yn glir nad yw'r Cyngor yn ystyried dyfodol Ysbyty Cymunedol Maesteg yn fater sydd wedi ei gau, ac y bydd yn parhau i eiriol dros ganlyniadau fydd yn cwrdd orau ag anghenion cymuned Maesteg a Chwm Llynfi a Phen-y-bont ar Ogwr yn ehangach hefyd.

3. Galw ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morganwg i ddarparu eglurder clir a diamwys ynghylch:

- A fydd gwelyau ysbyty cleifion mewnol cymunedol yn cael eu darparu'n lleol a ble;
- Y model gofal arfaethedig a'r amserlenni dangosol ar gyfer darparu gofal critigol ac acíwt yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr yn ei chyfanrwydd.

4. Galw ar y Bwrdd Iechyd i ailsefydlu ei berthynas â'r gymuned ar frys, gan gymryd canfyddiadau Llais i ystyriaeth, drwy:

   - Ymgymryd ag ymgysylltu wyneb yn wyneb o'r newydd ym Maesteg ac yn ardal ehangach Pen-y-bont ar Ogwr;
   - Cynnwys uwch benderfynwyr yn uniongyrchol;
   - Nodi'n glir pa benderfyniadau sy'n parhau i fod yn agored i ddylanwad y cyhoedd ac asiantaethau ehangach.

5. Cytuno, mewn egwyddor, y bydd y Cyngor yn edrych ar ei rôl mewn perthynas â dyfodol safle Ysbyty Cymunedol Maesteg, os na fydd ei angen mwyach i ddibenion gofal iechyd, gyda'r nod o sicrhau bod yr adeilad yn cael ei ddefnyddio'n dda gan y gymuned ac na fydd yn cael ei adael yn wag nac yn cael ei esgeuluso yn unol â'r cyfamod ar y safle a bod gwaith dichonoldeb priodol yn cael ei gynnal i ddeall heriau a chyfyngiadau'r safle.

13 <u>Materion Brys</u>

I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

Nodyn: Bydd hwn yn gyfarfod Hybrid a bydd Aelodau a Swyddogion mynychu trwy Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr / o bell Trwy Timau Microsoft. Bydd y cyfarfod cael ei recordio i'w drosglwyddo drwy wefan y Cyngor. Os oes gennych unrhyw gwestiwn am hyn, cysylltwch â cabinet_committee@bridgend.gov.uk neu ffoniwch 01656 643148 / 643694 / 643513 / 643159

Yn ddiffuant
**K Watson**
Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol

**Dosbarthiad:**

Cynghorwr: